

Cofnodion cyfarfod Arbennig Cyngor Tref Dinbych a gynhaliwyd nos lau 16eg o Ionawr yn Neuadd y Dref Dinbych am 6.30yh.

Presennol: Cynghorwyr Gaynor Wood-Tickle (Cadeirydd), Rhys Thomas (Dirpwy), Catherine Jones, Roy Tickle, Rob Parkes, Gaynor Morgan-Rees, Alyn Ashworth, Dyfrig Berry, Glenn Swinger, Irene Williams & Sylvia Jennings; & Jenny Barlow (Clerc y Dref);

Ymddiheuriadau: Cyng Philip Stevens

Croesawodd y cadeirydd bawb i'r cyfarfod arbennig cyngor llawn ym mis Ionawr.

117. Datganiad Diddordeb Personol: Dim

118. I drafod a pharatoi cyllideb gwario'r cyngor ar gyfer y flwyddyn ariannol 2020/2021 yn dilyn cyflwyniad gan Clerc y Dref.

Cyhoeddodd clerch y dref adroddiadau ariannol i'r holl gynghorwyr tref yn ymwneud â'r gyllideb gyfredol, gwariant cyfoes ynghyd â thaliadau posibl i'w gwneud tan ddiwedd y flwyddyn ariannol.

Rhoddodd clerch y dref gyflwyniad byr yn manylu ar bob pwnc ariannol yng ngwariant blynyddol y Cyngor Tref. Roedd hyn yn cynnwys edrych ar y cyllid mewn manylion i sicrhau bod yr holl wariant yn cael ei gynnwys. Cadarnhaodd y clerch y byddai'r gyllideb ar gyfer 2020/2021 yn £245,200.00

Caniataodd y clerch amser i'r Cynghorwyr dreulio'r wybodaeth a ddarparwyd ac yna gweithredu sesiwn holi ac ateb. Atebwyd y cwestiynau i gyd a derbyniwyd y gyllideb ar gyfer y flwyddyn i ddod.

119. I drafod a gosod ffigwr archebiant ar gyfer y flwyddyn ariannol 2020/2021

Rhoddodd y clerch wybodaeth yn ymwneud â'r symiau sy'n ofynnol i dalu'r gwariant ar gyfer y flwyddyn i ddod. Trafodwyd hyn gan y cynghorwyr a chytunwyd ar swm praesept o £66 yr aelwyd. Mae'r archebiant yn aros yr un fath â'r flwyddyn flaenorol. Byddai hyn yn rhoi ffigur praesept o £225,522.00 yn ogystal â defnyddio £661.65 o'r cronfeydd wrth gefn a'r credydau a dderbyniwyd.

Cytunwyd ar y ffigwr gwariant a'r ffigurau praesept gan cynghorwyr. Bydd y clerch yn cysylltu a Chyngor Sir Ddinbych gyda'r manylion.

Caeodd y cadeirydd y cyfarfod am 7.17 yh.

Arwyddwyd:.....(cadeirydd)

Dyddiad.....